

BUILDING

A | STRONGER

BRITAIN

TOGETHER

Ymgeisio am
gymorth mewn
nwyddau
Cyfarwyddyd
i ymgeiswyr

Ymgeisio am gymorth mewn nwyddau Cyfarwyddyd i ymgeiswyr

Cynnwys

Yr hyn y mae'r canllaw hwn yn ei roi	3
Building a Stronger Britain Together (BSBT)	4
Cyn cyflwyno	6
Adran 1 – Ynglŷn â'ch sefydliad	7
Adran 2 – Ynglŷn â'r gefnogaeth yr ydych yn gofyn amdani	8

Yr hyn y mae'r canllaw hwn yn ei roi

Nod y canllaw hwn yw rhoi trosolwg clir i chi o'r meini prawf cymhwyster a'r gefnogaeth mewn nwyddau sydd ar gael i grwpiau cymunedol.

Mae hefyd yn cynnig canllaw cam wrth gam i ymgeisio am gefnogaeth a chyngor ar sut y bydd eich cais yn cael ei asesu. Rydym yn annog pob grŵp i adolygu'r cyfarwyddyd hwn cyn cyflwyno cais.

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

Mae cefnogaeth mewn nwyddau yn bodoli i'ch helpu i gryfhau'r gwaith yr ydych yn ei wneud yn erbyn eithafiaeth. Gall hyn fod yn gysylltiedig â gwaith eich sefydliad cyfan neu ar gyfer prosiect penodol. Gall fod yn waith yr ydych yn ei wneud yn barod, neu efallai eich bod eisiau help i ddechrau taclo angen sy'n bodoli yn eich cymuned.

Rydym yn gofyn i'ch cynnig gyd-fynd ag un neu fwy o amcanion rhaglen Building a Stronger Britain Together (BSBT):

- Cynyddu gwytnwch unigolion a chymunedau o ran eithafiaeth;
- Cynyddu hyder a sgiliau unigolion a chymunedau i herio eithafiaeth;
- Darparu a hyrwyddo dewisiadau gwahanol uniongyrchol cadarnhaol i naratifau eithafol.

Rhoddir rhagor o fanylion am yr amcanion hyn ar dudalennau 4 a 5.


Yn ychwanegol at sicrhau bod eich cynnig yn cyd-fynd ag amcanion y rhaglen rydym yn arbennig o awyddus i dderbyn ceisiadau sy'n dangos:

- Sut y bydd y gefnogaeth y gwneir cais amdani yn cryfhau gwaith y mae tystiolaeth ei fod yn effeithiol yn erbyn eithafiaeth;
- Sut y bydd effaith y gefnogaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir.

O ystyried y duedd barhaus i symud gweithgaredd eithafol i'r gofod ar-lein, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn sefydliadau sy'n gobeithio cynnal gwaith i hyrwyddo naratifau cadarnhaol gwahanol sy'n brwydro yn erbyn y cynnwys eithafol sydd ar-lein a/neu herio gweithgaredd eithafol ar-lein.

O ystyried y pwysau presennol y mae pawb yn ei wynebu oherwydd y pandemig COVID-19, mae tîm y rhaglen BSBT yn ymwybodol y gall effeithio ar sefydliadau mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Byddwn yn ystyried hynny ar bob cam o'r broses o'r cais i gyflawni a gwerthuso. Byddwn yn asesu unrhyw broblemau COVID-19 o achos i achos.

Cyn cyflwyno cais, gwiriwch y meini prawf cymhwyster sylfaenol a restrir ar dudalen 6. Mae hyn yn cynnwys derbyn ein gwerthoedd a sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf sefydliadol.



Building a Stronger Britain Together

BSBT yw'r brif raglen gyflawni dan Strategaeth Gwrth-eithafiaeth 2015 y llywodraeth. Ers ei lansio yn 2016, ei nod yw cefnogi cymdeithas ddinesig a sefydliadau cymunedol ar draws Cymru a Lloegr i frwydro yn erbyn eithafiaeth o bob math a chynnig dewisiadau cadarnhaol i unigolion bregus.

Mae sefydliadau cymdeithas ddinesig sy'n gweithio yn erbyn eithafiaeth yn gallu ymgeisio am gefnogaeth mewn nwyddau trwy'r rhaglen BSBT. Dyfernir pecynnau cefnogaeth o werth hyd at £75,000 i sefydliadau i ehangu eu gallu wrth gyflawni cyfathrebiadau sy'n cyd-fynd ag amcanion BSBT (y rhoddir eu manylion isod).

Trwy BSBT, mae'r Swyddfa Gartref yn anelu at gyflawni'r amcanion canlynol:

Amcan 1:

Cynyddu gwytnwch unigolion a chymunedau o ran eithafiaeth

- Diogelu'r rhai sy'n gweithio yn erbyn eithafiaeth rhag bygythiadau a chodi ofn a chefnogi dioddefwyr eithafiaeth a throsteddau casineb;
- Cynyddu gallu sefydliadol a'r capasiti i lunio cymunedau sy'n gallu gwrthsefyll naratif eithafol, a thrwy hynny leihau bregusrwydd a'r risg o naratifau eithafol;
- Rhoi hwb i ffactorau gwarchodol unigolion a chymunedau (e.e. dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyfateb i naratif eithafol, gwell sgiliau meddwl beirniadol, empathi, cyfranogiad dinesig);
- Annog deialog ac ymgysylltu rhwng cymunedau penodol i gefnogi unigolion bregus ac ynysig a theuluoedd;
- Cynyddu'r gallu i wrthsefyll naratif eithafol, yn benodol negeseuon sy'n mynd yn erbyn y gwerthoedd a rennir gennym.


Amcan 2:

Cynyddu hyder a sgiliau unigolion a chymunedau i herio eithafiaeth

- Cryfhau sgiliau eraill i'w helpu i ddeall, adeiladu, a chynnal y sgiliau gofynnol i herio eithafwyr, a thrwy hynny gynyddu eu hyder;
- Darparu sgiliau gwrth-eithafiaeth penodol i gadarnhau ac ehangu cyrhaeddiad yr unigolion hynny sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth (e.e. sut i ddynodi/rhoi adroddiad am droseddau casineb; sut i herio eithafiaeth ar-lein);
- Cynyddu sgiliau meddal y rhai yn y gymuned (e.e. hyder, arweinyddiaeth) i herio/gweithredu fel 'hwyluswyr';
- Cyflawni gweithgaredd cynyddu capasiti i gefnogi'r rhwydwaith o leisiau credadwy ac annog rhannu gwybodaeth i gryfhau'r frwydr yn erbyn eithafiaeth (e.e. IKS, sesiynau hyfforddi rhwydwaith, rhannu gwybodaeth rhwydwaith, gweithgaredd Trefnydd Cymunedol);
- Rhoi cefnogaeth ymarferol a chyngor i gymunedau ar sut i herio gweithgaredd eithafwyr.

Amcan 3:**Darparu a hyrwyddo dewisiadau gwahanol uniongyrchol cadarnhaol i naratifau eithafol**

- Cefnogi unigolion a chymdeithasau i hyrwyddo naratif o oddefgarwch a pharch, a herio safbwyntiau anoddefgar sy'n creu rhaniadau yn gyhoeddus;
- Cael rhwydwaith o leisiau lleol credadwy i herio rhethreg eithafol yn hyderus a chyflwyno naratif gwahanol, credadwy a chadarnhaol sy'n clymu cymunedau wrth ei gilydd;
- Datblygu a rhannu offer ac adnoddau sy'n taseilio neu'n cynnig dewisiadau gwahanol i negeseuon eithafol a chodi ymwybyddiaeth o broblemau neu niweidiau perthnasol sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth;
- Ymdrin yn uniongyrchol a gweithredu yn erbyn naratif eithafol benodol neu niweidiau (e.e. sesiynau trafod; cefnogaeth i ddiodefswyr niweidiau perthnasol).



Cyn cyflwyno

Mae nifer o feini prawf cymhwyster y mae'n rhaid i chi eu bodloni i'ch cais gael ei ystyried:

- Adeiladwyd y rhaglen BSBT ar sylfaen o werthoedd a rennir gan gynnwys democratiaeth, rhyddid i lefaru, parch i'ch gilydd a chyfle i bawb. Dim ond gyda sefydliadau sy'n rhannu'r gwerthoedd yma y byddwn yn gweithio ac rydym yn ymroddedig i weithredu a gweithio yn unol â nhw. Ni fyddwn yn ariannu sefydliadau nad ydynt yn cymeradwyo'r gwerthoedd yma'n llawn neu sy'n cynnal gweithgareddau sy'n ceisio eu tansellio;
- Mae'r broses ar agor i unrhyw elusen gofrestredig yn y Deyrnas Unedig, Sefydliadau Corfforedig Elusennol, cwmnïau cyfyngedig trwy warant, Cwmnïau Budd Cymunedol nid er elw cofrestredig, sefydliadau sector cymunedol a gwirfoddol â chyfansoddiad. Rhaid i'r holl sefydliadau sy'n ymgeisio fod â chyfrif banc cofrestredig a lleiafswm o dri aelod ar y pwyllgor nad ydynt yn perthyn i'w gilydd;
- Yng Nghymru a Lloegr yn unig y mae'r rhaglen BSBT ar gael. Dylai grwpiau trydydd sector a chymunedol sy'n chwilio am gyllid yn yr Alban ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â llunio cymunedau cydlynus, gwydn a diogel anfon e-bost at One_Scotland_Mailbox@scotland.gsi.gov.uk a fydd yn gallu rhoi rhagor o gyngor am y cyfleoedd ariannu priodol;
- Nid yw unigolion yn gymwys;
- Bydd y rhaglen BSBT yn cael ei gwerthuso gan werthusydd annibynnol, a benodir gan y Swyddfa Gartref, i sicrhau bod trethdalwyr yn cael gwerth da am arian a bod prosiectau yn cael yr effaith a fwriadwyd. Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ymwneud yn llawn â'r holl weithgareddau gwerthuso.
- Ar gyfer yr holl brosiectau, bydd hyn yn cynnwys arolwg ar ddechrau eich prosiect i ddweud wrthym am y gweithgareddau yr ydych wedi eu cynllunio ac ail arolwg ar ddiwedd eich prosiect i ddweud wrthym sut y mae pethau wedi mynd. Gall ymgeiswyr llwyddiannus gael eu gwahodd hefyd i gymryd rhan mewn astudiaeth bellach i ddeall effaith ein gwaith neu eich profiad o'r rhaglen BSBT yn fwy cyffredinol.
Sylwer y bydd peidio ag ymateb i gyfathrebiadau gan y gwerthusydd a benodir yn cael ei ystyried fel torri eich cytundeb gyda'r Swyddfa Gartref a gallai arwain at dynnu'r gefnogaeth yn ôl. Sylwer hefyd mai dim ond ar ôl i chi gyflawni'r arolwg cyntaf y gallwch gychwyn ar eich prosiect.
- Mae hon yn broses agored a bydd y Llywodraeth yn dryloyw am enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus. Mae hyn yn debygol o gynnwys cyhoeddi rhestr o'r grwpiau llwyddiannus a gofyn i grwpiau gydnabod cefnogaeth y llywodraeth yn agored ar eu gwefan ynghyd â chydabod y gefnogaeth a roddwyd gan sefydliadau eraill. Bydd y gefnogaeth yn ddibynnol ar i'r grwpiau fod yn dryloyw yn y ffordd hon. Dim ond ymwneud â'r gefnogaeth a roddir dan y rhaglen hon y mae'r tryloywder gofynnol, fel y gofynnwyd yn eich cais;
- Rhaid darparu tystysgrif DBS ar gyfer arweinydd y prosiect wedi ei dyddio yn ystod y 3 blynedd diwethaf wrth ymgeisio. Os bydd arweinwyr prosiectau yn newid, bydd eich sefydliad yn gyfrifol am ddarparu tystysgrif DBS newydd;
- Bydd datblygu cefnogaeth mewn nwyddau yn llwyddiannus yn ddibynnol ar bartneriaeth agos rhwng y derbynnnydd, y cyflenwr a'r gwerthusydd. Bydd yn ofynnol i'r derbynnnydd ddarparu cynnwys a negeseuon cychwynnol i'r cyflenwr allu creu asedau a chymryd rhan yn yr holl weithgareddau gwerthuso rhesymol. Disgwylir i'r derbynnnydd gyflenwi'r cynnwys cychwynnol yn y templedi a roddir gan y cyflenwr.

Adran 1

Ynglŷn â'ch sefydliad

Yn Adran 1 rydym yn gofyn am wybodaeth am eich sefydliad.


Bwriad hyn yw cael syniad da am bwy ydych chi, beth yr ydych yn ei wneud a phwy yr ydych yn ei gefnogi yn eich cymuned.

Rydym hefyd yn holi am rôl brwydro yn erbyn eithafiaeth yn eich sefydliad hyd yn hyn. Gall hyn fod yn rhan o strategaeth eich sefydliad cyfan neu gall fod yn brosiectau neu bartneriaethau penodol y mae eich sefydliad wedi gweithio arnynt.

Pa rôl y mae gwrth-eithafiaeth wedi ei chwarae yng ngwaith eich sefydliad hyd yn hyn?

Os nad ydych wedi gweithio ar wrth-eithafiaeth o'r blaen nid yw hynny'n golygu na allwch ymgeisio.

Rhowch wybod i ni os yw hynny'n wir ac yna defnyddio'r cwestiwn hwn i ddweud wrthym pam bod brwydro yn erbyn eithafiaeth wedi dod yn flaenoriaeth i chi a pham eich bod yn meddwl bod eich sefydliad yn addas i helpu i gefnogi ein gwaith gwrth-eithafiaeth.



Adran 2

Am y gefnogaeth yr ydych yn gofyn amdani

Yn Adran 2 y ffurflen gais, rydym yn gofyn am wybodaeth am y gefnogaeth mewn nwyddau yr ydych yn gofyn amdani, gan gynnwys crynodeb o weithgareddau a gynllunnir, sut y bydd y gefnogaeth y gofynnir amdani yn helpu gyda'ch gweithgareddau gwrth-eithafiaeth, a'ch anghenion o ran cefnogaeth.

A yw'r gefnogaeth yr ydych yn gofyn amdani i helpu eich sefydliad cyfan neu ar gyfer prosiect gwrth-eithafiaeth penodol?

Mae'n bosibl gofyn am gefnogaeth i gryfhau gwaith eich sefydliad cyfan. Er enghraifft, efallai eich bod am gael help i ddatblygu cyfryngau cymdeithasol eich sefydliad, neu efallai y byddwch am ddatblygu ffilmiau y gallwch eu defnyddio i dynnu sylw at waith eich sefydliad.

Gallwch hefyd wneud cais am gefnogaeth i gryfhau eich gwaith ar brosiect penodol yn ymwneud â gwrth-eithafiaeth. Er enghraifft, efallai eich bod yn cynllunio digwyddiad mawr ac eisiau help gyda brandio, cysylltiadau cyhoeddus a ffotograffiaeth yn y digwyddiad hwnnw; neu efallai eich bod yn creu cwrs hyfforddi i athrawon ac angen help i ddatblygu pecyn adnoddau ar gyfer y cwrs.

Os yw'r gefnogaeth yr ydych yn gofyn amdani yn rhannol ar gyfer eich sefydliad ac yn rhannol ar gyfer prosiect penodol gallwch ddewis y ddau. Os yw hyn yn wir gwnewch yn siŵr eich bod yn glir wrth ddewis nwyddau eich bod yn dangos pa rai sydd ar gyfer eich sefydliad a pha rai sydd ar gyfer prosiect.

Rhowch grynodeb o'ch prosiect gwrth-eithafiaeth, gan gynnwys gweithgareddau'r prosiect.

Os yw'r gefnogaeth yr ydych yn gofyn amdani ar gyfer prosiect penodol, neu brosiect a'ch sefydliad ill dau, dylech roi manylion y prosiect hwnnw yn y cwestiwn hwn ar y ffurflen gais.

Byddai o gymorth cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Beth yw'r broblem yr ydych yn anelu i'w datrys?
- Pa weithgareddau ydych chi'n bwriadu eu cyflawni?
- Pwy yw eich cynulleidfa ar gyfer y gweithgareddau hyn?
- Pa wahaniaeth ydych chi'n ei feddwl y bydd yn ei wneud?
- Sut y mae'r prosiect hwn yn cefnogi gwrth-eithafiaeth?



Gofynion cefnogaeth

Yma rhestrir lefel y gefnogaeth y gallwch ymgeisio amdani o ran cefnogaeth mewn nwyddau ond ni all gwerth y gefnogaeth fod yn uwch na £75,000.

Ar ôl i'ch cais gael ei dderbyn, bydd yn cael ei asesu i sicrhau bod yr hyn yr ydych wedi gofyn amdano o fewn y lefel hon.

Fel y soniwyd, gallwch ddewis eitemau o nifer o gategoriâu ac yng nghategori dau a thri gallwch ddewis cymaint o bethau y gallir eu cyflawni ag y dymunwch a byddwn yn gweithio gyda chi i flaenoriaethu pa rai o'r eitemau a ddewiswyd gennych y gallir eu cyflawni o fewn y gyllideb os bydd eich cais yn llwyddiannus.

Pwy yw'r brif gynulleidfa darged ar gyfer y gwaith y mae arnoch eisiau cefnogaeth i'w wneud?

Dylai hyn grynhoi'r brif gynulleidfa ar gyfer eich cefnogaeth, gyda phwy yr ydych yn bwriadu gweithio/pwy fydddech chi'n hoffi ei gyrraedd trwy eich gweithgaredd arfaethedig.

Beth yw'r angen o ran eithafiaeth yn eich cymuned leol y bydd y gefnogaeth hon yn eich helpu i'w fodloni?

Dylai hyn amlinellu pa angen o ran eithafiaeth yr ydych yn ei wynebu yn eich ardal y mae eich gwaith yn bwriadu ei fodloni, er enghraifft, cynnydd yn lefelau'r troseddau casineb gwrth-Fwslimaidd yn dilyn gorymdaith gan y dde eithaf yn ddiweddar.

Bwriad hyn yw ein helpu i gyfateb cefnogaeth i waith sy'n ymdrin â'r anghenion eithafiaeth mwyaf taer yn eich cymuned leol.

Cynhwyswch ystadegau lleol, astudiaethau achos neu dystiolaeth arall o'r angen hwn pan fydd ar gael.



Pa amcan(ion) BSBT y mae'r gwaith y mae arnoch eisiau cefnogaeth ar ei gyfer yn cyd-fynd ag ef/nhw?

Dewiswch yr amcan(ion) BSBT y mae eich prosiect arfaethedig yn cyd-fynd agosaf ag ef/nhw. Gallwch ddewis mwy nag un, os yn berthnasol.

- Cynyddu gwytnwch unigolion a chymunedau o ran eithafiaeth;
- Cynyddu hyder a sgiliau unigolion a chymunedau i herio eithafiaeth;
- Darparu a hyrwyddo dewisiadau gwahanol uniongyrchol cadarnhaol i naratifau eithafol.

Sut fydd eich gwaith yn helpu i gyflawni'r amcan BSBT hwn?

Mae'n bwysig i'r rhaglen BSBT bod yr holl waith yr ydym yn ei gefnogi yn cyd-fynd ag un neu fwy o amcanion BSBT ac yn ein helpu i gyflawni'r rhain. Esboniwch sut y mae'r maes gwaith yr ydych yn gofyn am gefnogaeth ynglŷn ag ef yn cyd-fynd â'r amcan(ion) BSBT yr ydych wedi ei ddewis/eu dewis a sut y bydd cael cefnogaeth mewn nwyddau yn eich helpu i gyfrannu'n well at yr amcan(ion). Cyfeiriwch yn ôl at dudalennau 4 a 5 y cyfarwyddyd hwn i gael y manylion yn llawn.

Isod mae dwy enghraifft a fydd yn eich helpu i strwythuro rhai o'r cwestiynau allweddol o Adrannau 1 a 2 yn y ffurflen gais.

Astudiaeth achos 1

Mae'r astudiaeth achos gyntaf yn berthnasol i'r rhai a wnaeth gais am gefnogaeth i'w sefydliad cyfan:

A allwch chi ddisgrifio'r prif fathau o wasanaethau/gweithgareddau y mae eich sefydliad yn eu cyflenwi?

Ateb enghreifftiol:

Mae ein sefydliad yn darparu gwasanaethau cefnogi i bobl sy'n ddi-ddeddfwyr troseddau casineb. Mae hyn yn cynnwys grŵp trafod wythnosol i fenywod yn ogystal â chyngor a gwasanaethau proffesiynol i ymdrin â phroblemau penodol, er enghraifft pan fydd angen cefnogaeth gyfreithiol neu pan fydd y menywod yn dymuno cael addysg a hyfforddiant heb ragfarn.

Pwy yw'r prif gynulleidfaedd (yn ddemograffig) ar gyfer eich sefydliad a pha anghenion ydych chi'n eu cefnogi ar gyfer y cynulleidfaedd hyn?

Ateb enghreifftiol:

Y brif gynulleidfa ar gyfer ein sefydliad yw menywod sy'n teimlo eu bod ar gyrion eu cymunedau ac sy'n teimlo nad oes ganddyn nhw lais. Mae'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig yn rhoi cyfle i fenywod ddod at ei gilydd mewn gofod diogel i drafod eu heriau, chwilio am gefnogaeth a, phan fydd angen, cael cyngor proffesiynol. Nid oes unrhyw le arall lle gall y menywod yma wneud hyn yn eu cymuned ar hyn o bryd.

Pa rôl y mae gwrth-eithafiaeth wedi ei chwarae yng ngwaith eich sefydliad hyd yn hyn?

Ateb enghreifftiol:

Mae gwrth-eithafiaeth yn chwarae rôl ganolog yn ein sefydliad, gan fod ei ddiben a'i werthoedd wedi eu hadeiladu ar y syniad o ryddid crefyddol a diwylliannol i bawb. Rydym yn gynyddol ymwybodol o leisiau a syniadaeth eithafol yn ein cymuned sy'n bygwth hyn. Rydym yn gwybod hyn oherwydd ein bod wedi gweld cynnydd mewn dioddefwyr troseddau casineb sy'n gofyn am ein gwasanaethau cefnogi. Ein cenhadaeth yw sicrhau na fydd unrhyw un yn ein cymuned yn gorfod wynebu'r math hwn o ragfarn ar ei ben ei hun.

Sylwer y dylai atebion i'r cwestiwn hwn, pan fydd yn bosibl, gynnwys tystiolaeth ac enghreifftiau o sut y bydd rôl gwrth-eithafiaeth yn cael ei gyflawni.

Esboniwch yn gryno pa help sydd arnoch ei eisiau trwy gefnogaeth mewn nwyddau.

Ateb enghreifftiol:

Mae ymwybyddiaeth o'r sefydliad yn cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n clywed ar lafar neu sy'n gweld ein poster. Rydym am ymestyn ein cyrhaeddiad ac ymgysylltu â chynulleidfa fwy ar-lein.

Mae ar ein sefydliad ni angen cyngor cyfathrebu ar sut y gall ddatblygu a thyfu ein cymuned ar-lein. Rydym yn gofyn am strategaeth cyfryngau cymdeithasol a hyfforddiant fel ein bod yn gallu:

- *Dynodi a tharged aelodau newydd perthnasol;*
- *Sicrhau ein bod yn postio yn effeithiol ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol;*
- *Rhoi gwybodaeth berthnasol i aelodau allweddol o'r sefydliad gyda hyfforddiant am ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol.*

Beth yw'r her o ran eithafiaeth yn eich cymuned leol y bydd y gefnogaeth hon yn eich helpu i frwydro yn ei herbyn?

Ateb enghreifftiol:

Rydym yn gwybod trwy arolwg yn ddiweddar bod y digwyddiadau troseddau casineb yn yr ardal wedi cynyddu o 20% dros y 3 blynedd ddiwethaf. Arweiniodd hyn at weld pobl yn bryderus am adael eu cartref neu ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol. Mae'r niferoedd o bobl sy'n cysylltu â ni am help ac angen ein gwasanaethau wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Sylwer y dylai atebion i'r cwestiwn hwn gael eu cefnogi gan ddata, os yn bosibl, neu dystiolaeth ansoddol a meintiol.

Sut fydd eich gwaith yn helpu i gyflawni'r amcan BSBT hwn?

Ateb enghreifftiol:

Mae'r gefnogaeth yr ydym yn gofyn amdani yn cyd-fynd ag amcan 2 BSBT: "cynyddu hyder a sgiliau unigolion a chymunedau i herio eithafiaeth". Bydd cefnogaeth mewn nwyddau yn helpu i gynyddu sgiliau ein grŵp i lunio cymuned ar-lein o gefnogaeth yn ychwanegol at ein gwasanaethau oddi ar y we a fydd yn ymestyn eu cyrraedd yn fawr.

Astudiaeth achos 2

Mae'r ail astudiaeth achos yn berthnasol i'r rhai a wnaeth gais am gefnogaeth ar gyfer prosiect penodol y mae eu sefydliad yn ei redeg:

A allwch chi ddisgrifio'r prif fathau o wasanaethau/gweithgareddau y mae eich sefydliad yn eu cyflenwi?

Ateb enghreifftiol:

Mae ein sefydliad yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i bobl ifanc mewn cymunedau difreintiedig i roi llwyfan iddynt rannu eu profiadau, eu dyheadau a'u pryderon am y dyfodol. Rydym yn defnyddio gweithgareddau creadigol sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn trafodaethau yn ymwneud â materion lleol a chwynion. Rydym hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio gan dimau troseddwr ifanc ac ysgolion. Mae hyn yn helpu i gyflawni amcanion BSBT trwy allu ein sefydliad i gryfhau sgiliau'r rhai sy'n cymryd rhan i'w helpu i ddeall, adeiladu, a chynnal y sgiliau gofynnol i herio eithafwyr, a thrwy hynny gynyddu eu hyder.

Pwy yw'r prif gynulleidfaedd (yn ddemograffig) ar gyfer eich sefydliad a pha wasanaethau ydych chi'n eu cynnig iddynt?

Ateb enghreifftiol:

Mae ein sefydliad yn gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc 14-19 oed sydd o gefndiroedd difreintiedig ac â chefnogaeth gymdeithasol neu gyfleoedd datblygu personol cyfyngedig. Yn gyffredinol mae'r bobl ifanc yma yn fregus i ddylanwadau negyddol yn eu cymuned, fel camddefnyddio sylweddau, troseddau gangiau a cham-fanteisio rhywiol.

Pa rôl y mae gwrth-eithafiaeth wedi ei chwarae yng ngwaith eich sefydliad hyd yn hyn?

Ateb enghreifftiol:

Mae eithafiaeth yn faes gwaith cymharol newydd i'n sefydliad. Ond rydym wedi dod yn gynyddol ymwybodol o ddylanwad cynyddol grwpiau lleol yn hyrwyddo syniadau o'r dde eithaf ac yn gyrru safbwyntiau hiliol a llawn casineb ymhlith pobl ifanc gwyn Prydeinig. Dechreuodd ein sefydliad weithio yn y flwyddyn ddiwethaf gyda grŵp lleol arall sy'n cynnig hyfforddiant meddwl yn feirniadol i bobl ifanc i'w helpu i reoli sgysiau heriol. Rydym yn awyddus i wneud mwy i daclo naratif o'r dde eithaf yn y gymuned.

Rhowch grynodedb o'ch prosiect, gan gynnwys gweithgareddau'r prosiect.

Ateb enghreifftiol:

Mae ein prosiect yn ymgysylltu â phobl ifanc sy'n agored i gael eu dylanwadu gan grwpiau o'r dde eithaf. Mae'n cynnig llwyfan i drafod eu dealltwriaeth o eithafiaeth ac eithafwyr. Rydym yn rhoi hyfforddiant i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol a chefnogaeth emosiynol i bobl ifanc. Yn ychwanegol, gallant ddefnyddio sgiliau ehangach a chyfleoedd hyfforddi'r sefydliad i wella eu rhagolygon mewn bywyd.

Esboniwch yn gryno beth y bydd y gefnogaeth mewn nwyddau yn eich helpu i'w wneud.

Ateb enghreifftiol:

Rydym am ddatblygu pecyn offer i gefnogi meddwl beirniadol a hefyd i ddeall sut i hyrwyddo sesiynau i grwpiau eraill o bartneriaid – ysgolion, colegau, clybiau chwaraeon a sefydliadau ieuenctid.

Felly rydym yn gofyn am gefnogaeth i'n helpu ni i ddatblygu:

- *Ein pecyn offer yn ased wedi ei ddylunio a'i argraffu yn broffesiynol i'w ddefnyddio gennym ni a phartneriaid perthnasol;*
- *Strategaeth gyfathrebu i ni ymgysylltu â phartneriaid newydd a hyrwyddo'r prosiect a'r pecyn offer.*

Beth yw'r her o ran eithafiaeth yn eich cymuned leol y bydd y gefnogaeth hon yn eich helpu i frwydro yn ei herbyn?

Ateb enghreifftiol:

Mae ein sefydliad yn gweithio mewn ardal o amddifadedd difrifol, diweithdra uchel a thriwantiaeth uchel. Mae cyfartaledd oedran y boblogaeth yn yr ardal hon yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.


Mae diffyg cyfleoedd i bobl ifanc. Mae mudiadau eithafol ar y dde yn gweithredu yn y lleoliad hwn. Mae tystiolaeth o hyn trwy weld pobl ifanc yn defnyddio naratifau sydd wedi cael eu dynodi fel rhai eithafol mewn grwpiau cefnogi ac amlygrwydd y sticeri a'r posteri sy'n gysylltiedig â grwpiau eithafol tu allan i ysgolion.

Sut fydd eich gwaith yn helpu i gyflawni'r Amcan BSBT hwn?

Ateb enghreifftiol:

Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â deilliant 1 y BSBT: "Cynyddu gwytnwch unigolion a chymunedau o ran eithafiaeth" gan fod ein prosiect yn cynnig lle diogel i bobl ifanc lle gallant siarad am syniadau eithafol a gofyn cwestiynau anodd heb fod ofn dial na chael eu galw yn hiliol.

Bydd pecyn offer gwell yn fwy effeithiol wrth ddysgu'r bobl ifanc i herio syniadaeth eithafol a chasineb. Bydd y strategaeth gyfathrebu yn ein helpu i gyflwyno'r gwasanaethau hyn i gynulleidfa lawer ehangach.



Yn ardal(oedd) pa awdurdodau lleol fydd y gwaith yr ydych eisiau cefnogaeth i'w gyflawni yn digwydd?

Os bydd eich gweithgaredd yn cael ei gyflawni mewn mwy nag un ardal, neu ar-lein, dewiswch y brif ardal.

Sut fyddwch chi'n gwybod a yw'r gefnogaeth wedi bod yn llwyddiannus?

Rhowch fanylion am effaith tymor byr a thymor hir y gefnogaeth mewn nwyddau, gan gynnwys sut yr ydych yn meddwl y bydd hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd eich gwaith. Mae cynaliadwyedd yn bwysig iawn wrth ystyried rhaglen BSBT a byddai'n dda clywed sut yr ydych yn teimlo y bydd y gefnogaeth mewn nwyddau a roddwyd yn parhau i gryfhau eich prosiect a/neu eich sefydliad ar ôl iddo gael ei gyflawni.

Pwyntiau eraill i'w hystyried wrth lunio eich cais am gefnogaeth mewn nwyddau.

(i) Gwnewch yn siŵr bod eich cais yn cysylltu'n ôl â thema yn y strategaeth gwrth-eithafiaeth.

Mae'r themâu hynny yn cynnwys, ond heb gael eu cyfyngu i'r canlynol:

- a. Naratifau a negeseuon eithafol
- b. Troseddau Casineb (wedi eu hysgogi gan un o'r nodweddion canlynol: crefydd; hil; cyfeiriadedd rhywiol; hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd)
- c. Anffurfio Organau Rhywiol Menywod (FGM)
- d. Priodas dan orfod
- e. Cam-drin ar sail anrhydedd
- f. Hyrwyddo gwytnwch cymunedol
- g. Hyrwyddo gwytnwch personol trwy feddwl yn feirniadol

(ii) Byddwch yn glir o ran sut y bydd eich gweithgaredd yn helpu i gyrraedd yr amcan(ion) BSBT a ddewiswyd gennych.

Mae ceisiadau cryfach yn cysylltu'n glir â sut y mae'r gweithgaredd y maent yn ei amlinellu yn cysylltu yn ôl â chyflawni un o amcanion y rhaglen.



(iii) Byddwch yn gryno.

Mae'n bwysig cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn eich cais i sicrhau ei bod yn glir beth yr ydych yn bwriadu ei gyflawni trwy eich prosiect. Wrth amlinellu'r gwaith y maent yn ei wneud, mae diffyg ffocws yng ngheisiadau rhai sefydliadau.

Fe welwch fod cyfyngiad geiriau mewn rhai adrannau o'r ffurflen gais. Defnyddiwch y rhain fel canllaw i'ch helpu i lunio eich ateb a phenderfynu beth ddylai gael blaenoriaeth.

**iv) Byddwch yn glir am yr hyn yr ydych yn gofyn amdano.**

NID yw cefnogaeth mewn nwyddau yr un fath â rhaglen grant.

Fel y cyfryw, byddwch yn derbyn cefnogaeth gyfathrebu yn hytrach na swm o arian.

Bydd ceisiadau sy'n cyfeirio at dderbyn arian yn cael eu diystyru.

**v) Pan fydd yn bosibl, ystyriwch adolygu eich cais BSBT gyda'ch Cydlynnydd Cymunedol.**

Mae proses gefnogi mewn nwyddau BSBT yn dryloyw. Felly ni all cydlynwyr cymunedol BSBT ysgrifennu cais drosoch chi nag yn wir eich cyngori a fydd eich cais yn llwyddiannus neu beidio.

Ond, mae ganddynt gyfoeth o brofiad a gwybodaeth am frwydro yn erbyn eithafiaeth a'r rhwydwaith BSBT ehangach felly maent mewn sefyllfa dda i adolygu eich cais a rhoi adborth.

Os nad oes cydlynnydd cymunedol yn eich ardal, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Rhwydwaith BSBT trwy BSBT@homeoffice.gov.uk

**vi) Gweithdrefn gwyno**

Os oes gennych gŵyn yn ymwneud ag unrhyw agwedd o'ch cais am gefnogaeth mewn nwyddau cysylltwch â BSBT@homeoffice.gov.uk



Er mwyn ymgeisio am gefnogaeth
mewn nwyddau fel rhan o raglen BSBT
ewch i'n gwefan:

gov.uk/guidance/building-a-stronger-britain-together

**BUILDING
A STRONGER
BRITAIN
TOGETHER**